CYNGOR SIR PENFRO

CYLCHLYTHYR

YSGOL CAER ELEN

Ionawr 2018

Croeso i'n cylchlythyr ynglŷn â datblygiadau diweddaraf Ysgol Caer Elen.

GAIR GAN Y PENNAETH GWEITHREDOL

"Braint ac anrhydedd oedd derbyn gwahoddiad y Corff Llywodraethol Dros Dro ac Awdurdod Addysg Sir Benfro i arwain Ysgol Caer Elen ac Ysgol y Preseli fel Pennaeth Gweithredol.

Rwy'n edrych ymlaen yn fawr at y sialens o sefydlu a datblygu Ysgol Caer Elen ochr yn ochr â sicrhau bod safonau Ysgol y Preseli yn parhau ymysg y gorau yn y wlad.

Mae sefydlu Ysgol Caer Elen yn ddathliad o lwyddiant addysg cyfrwng Cymraeg yn Sir Benfro. Ein nod fydd i ddatblygu ysgol arloesol 3-16 a fydd yn darparu addysg cyfrwng Cymraeg o'r radd flaenaf mewn partneriaeth â'n hysgolion clwstwr ac Ysgol y Preseli.

Mae blaenoriaethau Rhagfyr/Ionawr wedi bod yn seiliedig ar gysylltu â rhanddeiliaid a rhannu fy ngweledigaeth ar gyfer datblygu'r ysgol â darpar ddisgyblion a'u rhieni; paratoi prosbectws dros dro; marchnata'r ysgol newydd yn ein cymunedau; cynllunio strwythur staffio; a pharatoi cwricwlwm cyffrous a chyfoes.

Diolch yn fawr am eich cydweithrediad a'r gefnogaeth yn ystod y misoedd cyntaf o'r prosiect."

Mr Michael Davies

ENW'R YSGOL

Yn dilyn cyfarfod o Gabinet Cyngor Sir Penfro ar Ddydd Llun, Ionawr 8fed 2018, cadarnhawyd yn swyddogol enw'r ysgol Gymraeg 3-16 newydd sef Ysgol Caer Elen. Diolch yn fawr iawn i bawb a wnaeth ymateb i'r ymgynghoriad a gobeithiwn eich bod yn falch o'r enw. Mae Ysgol Caer Elen wedi derbyn ymateb cadarnhaol iawn gan y cyhoedd a'r gymuned.

Mae hanes Caer Elen yn dyddio nôl i gyfnod y Rhufeiniaid. Roedd Elen yn Gymraes, yn frenhines ac yn byw yn yr ardal. Priododd Elen â Macsen Wledig, sef ymerawdwr olaf Prydain. Yn ôl yr hanes, penderfynodd Macsen enwi'r dref ar ôl ei wraig Elen, felly'r enw gwreiddiol am Hwlffordd oedd Caer Elen.

GWISG A LOGO'R YSGOL

Yn dilyn cyfres o gyfarfodydd o'r Is-bwyllgor Marchnata a Chyfathrebu yn ystod Rhagfyr/ Ionawr, trafodwyd lliwiau a steiliau posibl ar gyfer y wisg ysgol. Bwriedir ymgynghori â rhieni a disgyblion yn ystod yr wythnosau nesaf er mwyn casglu barn am y wisg cyn i'r Corff Llywodraethol Dros Dro benderfynu ar y wisg derfynol. Ar hyn o bryd mae'r prif liwiau ar gyfer y wisg yn cynnwys *navy*/*sapphire blue*/llwyd/aur/gwyn. Y bwriad yw gosod 'mannequins' cynradd/uwchradd ym mhob ysgol gynradd sy'n bwydo Ysgol Caer Elen cyn gynted â phosibl er mwyn casglu barn rhieni a disgyblion. Bydd lluniau enghreifftiol o'r wisg hefyd yn ymddangos ar Facebook yr ysgol. Darperir rhagor o wybodaeth parthed y wisg ysgol chwaraeon ayyb maes o law.

Yn ogystal, penderfynodd aelodau'r Is-bwyllgor Marchnata a Chyfathrebu cynnal cystadleuaeth er mwyn i gymaint o ddarpar ddisgyblion Ysgol Caer Elen â phosibl i gynllunio logo ar gyfer y wisg ysgol. Dyfernir y gystadleuaeth logo gan lywodraethwyr cyn caiff y logo buddugol ei ddylunio'n broffesiynol gan arbenigwyr a'i osod ar eitemau megis y wisg ysgol.

EDRYCHWCH ALLAN AM...

- Anelir at gyhoeddi Prosbectws Dros Dro Ysgol Caer Elen erbyn Chwefror 2018 ar gyfer darpar ddisgyblion. Bydd yn cynnwys gwybodaeth allweddol megis ethos yr ysgol, polisi iaith yr ysgol, côd ymddygiad, gwisg ysgol, oriau ysgol a dysgu, cwricwlwm cynradd ac uwchradd a llawer mwy. Dosberthir copïau o'r prosbectws i ddarpar ddisgyblion drwy'r ysgolion cynradd bydd yn bwydo'r ysgol newydd.
- Cadarnhad ar 1 Mawrth 2018 os yw eich plentyn wedi cael lle ym mlwyddyn 7 yn Ysgol Caer Elen.

TUDALEN FACEBOOK / GWEFAN YSGOL

Mae'r Corff Llywodraethol Dros Dro wedi creu tudalen Facebook er mwyn eich diweddaru yn rheolaidd am wybodaeth bwysig sy'n ymwneud ag Ysgol Caer Elen. A fyddech mor garedig â hoffi'r dudalen **'Ysgol Caer Elen'** os gwelwch yn dda.

Bydd Ysgol Caer Elen yn sefydlu gwefan annibynnol, unigryw cyn bo hir er mwyn rhannu gwybodaeth gyda'r rhanddeiliaid. Caiff ei hysbysebu drwy'r wasg a rhwydweithiau cymdeithasol a'r wefan maes o law fydd ffynhonnell uniongyrchol gwybodaeth allweddol am ddatblygiadau'r ysgol.

SEREMONI GOSOD Y GARREG GOPA

Cafwyd seremoni 'gosod carreg gopa' llwyddiannus ar Ddydd Llun 20fed Tachwedd 2017 ar safle'r Ysgol Caer Elen. Mynychodd Eluned Morgan AC, Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes, y seremoni ynghyd â Chynghorwyr y Sir, Penaethiaid a disgyblion y pedair ysgol gynradd, Swyddogion ALl ac aelodau o dîm y contractwyr. Roedd yr hen seremoni yn nodi cwblhad adeiladu strwythur uchaf yr adeilad a dywedir ei bod yn cadw ysbrydion drwg draw ac yn rhoi lwc dda i'r eiddo. Cymerodd y disgyblion o'r pedair ysgol rhan yn y seremoni gan osod gwin, olew, corn a halen ar goeden ywen a osodwyd yn y rhan uchaf o'r adeilad newydd.

Dywedodd y Gweinidog: "Mae'n bleser nodi achlysur mor bwysig yn y broses o adeiladu'r ysgol newydd, y buddsoddiad cyntaf mewn addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg yn y rhan yma o Sir Benfro. Rwy'n ymhyfrydu fod Llywodraeth Cymru'n gallu cefnogi datblygiad gyda chyllid o bron i £12.5 miliwn o'r Rhaglen Addysg ac Ysgolion yr 21ain Ganrif. Mae'n enghraifft wych o'r hyn mae Llywodraeth Cymru yn ei gyflawni trwy weithio mewn partneriaeth â llywodraeth leol ac ysgolion. Mae'n dysteb i waith called nifer o bobl sydd wedi bod yn brwydro am addysg cyfrwng Cymraeg yn yr ardal a'r ysgol hon yn benodol am beth amser, bod y seremoni gosod carreg Sylfaen yn digwydd heddiw. Mae ysgolion fel hyn yn hollbwysig i'n nod o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050."



Y Gweinidog Eluned Morgan AC â'r Cyng. David Lloyd (ail o'r dde), Cadeirydd y Cyngor, y Cyng. Paul Harries, Ian Jones, Cyfarwyddwr Gweithrediadau Willmott Dixon, a'r disgyblion o'r pedair ysgol gynradd.

NOSWEITHIAU AGORED / TEITHIAU O'R SAFLE

Mynychodd cynulleidfaoedd teilwng y nosweithiau agored a drefnwyd yn y pedair ysgol gynradd ar ddechrau Rhagfyr 2017. Cafodd y rhieni gyfle i holi cwestiynau i'r Pennaeth Gweithredol ar ei weledigaeth am yr ysgol. Amlinellodd Ms Cath Davies, Cydlynydd Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif Cyngor Sir Penfro cynlluniau safle'r ysgol newydd hefyd.

Yn ogystal, cafwyd bore agored llwyddiannus ar Ddydd Sadwrn 9fed Rhagfyr 2017 pan ddaeth dros 60 o bobl i deithio o amgylch y safle er mwyn cael cyfle i weld y datblygiadau diweddaraf. Gweler lluniau o'r bore agored ar dudalen Facebook yr ysgol.

Y bwriad yw trefnu rhagor o nosweithiau agored a theithiau o amgylch y safle yn ystod tymhorau'r gwanwyn a'r haf er mwyn diweddaru rhieni'n gyson am y datblygiadau diweddaraf Ysgol Caer Elen. Caiff rhagor o wybodaeth ei ddarparu maes o law.

DATBLYGIAD O WAITH ADEILADU YSGOL CAER ELEN

Mae'r contractwyr wedi darparu'r gwybodaeth isod ar waith diweddaraf y safle.

Yn bresennol, mae dros 120 o weithwyr ar y safle â gwaith yn datblygu'n dda yn fewnol ac yn allanol.

Mae'r mwyafrif o'r gweithwyr yn gweithio o fewn yr adeilad. Prif drwch y gwaith yw adeiladwaith rhaniadau'r waliau cerrig a gosodiad rhwydweithiau mecanyddol ac electronig a fydd yn darparu pŵer, dŵr, gwres, data ayyb ar gyfer ehangder yr adeilad. Ar hyn o bryd, y gwaith i'r adain gynradd sydd ar y blaen â'r lefelu i'w gwblhau'r wythnos hon mewn paratoad ar gyfer y gôt gyntaf o baent yn gynnar ym mis Chwefror.

Yn allanol, rydym wedi datblygu'r gorau a fedrwn er gwaethaf amodau'r tywydd gwlyb. Ar hyn o bryd, mae'r toeau a'r gorchudd, bricwaith, a system fframwaith strwythurol a'r byrddio yn mynd yn ei flaen i dalwyneb yr adeilad. Rydym hefyd yn paratoi yn barod ar gyfer tarmacio o gwmpas perimedr yr ysgol gynradd tra bod gwaith ar y cae chwaraeon 3G hefyd yn datblygu'n dda.

O fewn y mis nesa, edrychwn ymlaen at ddechrau paentio'r ysgol gynradd er mwyn gosod gridiau'r nenfwd. Bydd gwaith mecanyddol ac electronig a'r 'dry lining' yn parhau yn yr adran uwchradd tra yn allanol, byddwn yn parhau i weithio ar orchudd yr adeilad gan sicrhau ein bod yn cyflawni tyndra o'r dŵr erbyn diwedd mis Chwefror.

Gweler isod rhai lluniau o'r gwaith hyd yn hyn.







WILLMOTT DIXON
SINCE 1852